



Cyngor Llyfrau Cymru
Adran Datblygu Cyhoeddi

CANLLAWIAU
CYLCHGRONAU DIWYLLIANNOL

TELERAU AC AMODAU CYFFREDINOL CYMORTH GRANT AR GYFER:
CYLCHGRONAU DIWYLLIANNOL SAESNEG

- 1 Gwneir y cynnig grant ar sail yr wybodaeth yn y cais ac unrhyw ohebiaeth ategol. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i ailystyried y grant a ddyfarnwyd mewn achosion pan nad yw'r gwaith sy'n cael ei ariannu yn cyfateb â'r amserlen neu fanylion eraill a roddwyd ar y ffurflen gais, neu y cytunwyd arnynt fel arall.
- 2 Os na fydd y dibenion y cynigiwyd y grant ar eu cyfer yn cael eu cyflawni'n amserol, neu mewn achos lle nad oes cydymffurfiaeth â'r amodau perthnasol, mae'n bosibl y bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gofyn i'r derbynnydd ddychwelyd y swm cyfan, neu ran o unrhyw grant a allai fod wedi'i dalu.
- 3 Bydd derbynnydd y grant yn cydymffurfio ag unrhyw amodau a gofynion ychwanegol ar gyfer y cynllun, sydd wedi'u nodi yn y cynnig grant ffurfiol neu mewn unrhyw lythyr eglurhaol. Dylai'r Cyhoeddwr gyfeirio at y cytundebau/adroddiadau ariannu unigol.
- 4 Os yw'r cylchgrawn ar gael ar ffurf wedi'i argraffu, mae'n rhaid i'r cyhoeddwr ddarparu pedwar copi ategol o'r gwaith cyhoeddedig i Gyngor Llyfrau Cymru wrth hawlio'r grant (fel arall, gall y cyhoeddwr hysbysu'r Adran Datblygu Cyhoeddi bod y teitl ar gael yng Nghanolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru, a'u cyfarwyddo i gymryd pedwar copi ategol o'r stoc). Yn achos cylchgronau digidol, mae'n rhaid sicrhau bod copi digidol ar gael am ddim i'r Cyngor Llyfrau, ac mae'n rhaid hysbysu'r Adran Datblygu Cyhoeddi pan fydd ar gael.
- 5 Mae'n rhaid arddangos y gydnabyddiaeth ganlynol yn amlwg ym mhob cylchgrawn sydd wedi derbyn grant, neu mae swyddi'r staff sydd wedi bod yn gweithio arnynt yn cael eu cefnogi gan gymorth grant: "Mae'r cyhoeddwr yn cydnabod cymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru." Mewn cyhoeddiadau wedi'u hargraffu, dylid argraffu'r gydnabyddiaeth hon ar y ddalen verso. Mewn cyhoeddiadau digidol, dylai ymddangos yn amlwg mewn lleoliad y cytunwyd arno ymlaen llaw gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi. Yn ogystal, pan fydd logos cyllidwyr/noddwyr/cefnogwyr eraill yn ymddangos yn y cylchgrawn, mae'n rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys logo Cyngor Llyfrau Cymru, yn ogystal â'r geiriau uchod. Dylid rhoi cydnabyddiaeth hefyd i gymorth ariannol Cyngor Llyfrau Cymru ym mhob digwyddiad cyhoeddus sy'n hyrwyddo neu'n marchnata teitlau sy'n cael eu cefnogi. Gallai methiant i gynnwys cydnabyddiaeth briodol arwain at ostyngiad o

hyd at 10% o'r grant sy'n daladwy. Ni ddylid defnyddio cydnabyddiaeth o'r grant hwn ac unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor mewn unrhyw ffordd sy'n awgrymu bod y Cyngor yn ymgymryd â chyfrifoldeb, neu'n derbyn cyfrifoldeb, i drydydd parti am ddyledion neu rwymedigaethau derbynydd y grant (gweler rhif 13).

- 6 Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth bellach o wariant. Mae'n ofynnol i bob cyhoeddwr, nad yw'n gyhoeddwr sy'n argraffu cylchgronau sy'n cael eu hargraffu, gadw anfonebau am y gwaith argraffu a rhwymo a wneir, ac mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i ofyn i gael gweld y rhain. Hefyd, mae'n rhaid i gyhoeddwr gael o leiaf tri dyfynbris er mwyn sefydlu'r prisiau mwyaf cystadleuol ar gyfer cysodi ac argraffu, bob 3 blynedd o leiaf, er bod cymariaethau amlach yn cael eu hargymell.
- 7 Dylai argraffwr-cyhoeddwr cylchgronau sy'n cael eu hargraffu gadw cofnod o'r prisiau sy'n cael eu codi yn fewnol am argraffu cylchgronau, a dylai'r rhain adlewyrchu'r prisiau sy'n cael eu codi ar gwsmeriaid eraill am wasanaethau tebyg. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ofyn am y rhain neu unrhyw dystiolaeth berthnasol arall o wariant.
- 8 Yn achos pob cylchgrawn sy'n cael ei ariannu, dylid rhoi gwybod i'r Cyngor Llyfrau am unrhyw gymorth ariannol sy'n cael ei dderbyn ar gyfer cyhoeddi'r cylchgrawn o unrhyw ffynhonnell ar wahân i Gyngor Llyfrau Cymru.
- 9 Bydd safon y gwaith golygu ac ansawdd cyffredinol y gwaith dylunio a chynhyrchu yn cael ei ystyried wrth ystyried y grant sy'n cael ei gynnig a'r grant terfynol sy'n cael ei dalu. Mewn achosion pan ystyrir bod y gwaith golygu neu'r gwaith dylunio neu gynhyrchu cyffredinol yn is na'r safon dderbyniol, gellir lleihau'r grant. Gellir ystyried gwaith golygu, dylunio neu gynhyrchu o'r fath, sy'n is na'r safon arferol wrth ystyried grantiau yn y dyfodol.
- 10 Mae'n ofynnol i bob cylchgrawn sy'n cael ei argraffu fod ar gael drwy Ganolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru, yn unol â thelerau masnachu arferol Cyngor Llyfrau Cymru. Mae'n ofynnol i bob e-fersiwn sy'n cael ei gyhoeddi fod ar gael i'w prynu ar gales.com drwy Gardeners.
- 11 Un o'r amodau yw y dylid dosbarthu cylchgronau sy'n cael eu hargraffu, i Ganolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru cyn, neu'r un pryd ag y byddant ar gael drwy ddulliau eraill i unrhyw ddosbarthwr neu fanwerthwr, neu eu bod ar gael mewn lansiad neu ddigwyddiad arall (ac eithrio gohebiaeth tanysgrifio). Y cyhoeddwr sy'n gyfrifol am gludo a chyflenwi cylchgronau yn amserol.
- 12 Mae'r cyhoeddwr yn cytuno, iddo ef ei hun (ac eraill) gyda'r Panel Datblygu Cyhoeddi, a'u hollynwyr mewn teitl, y bydd ef, y Cyhoeddwr, bob amser o hyn ymlaen yn arbed ac yn indemnio'r Panel rhag pob hawliadau costau achos a galwadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithred a allai arwain at dorri unrhyw un o gyfreithiau Cymru a Lloegr.

Mae fersiwn Saesneg o'r canllawiau hyn ar gael.
An English-language version of these guidelines is available.